

MIS HANES POBL DDUON 2014 YNG NGOGLEDD CYMRU

BLACK HISTORY MONTH 2014 IN NORTH WALES

HANES DU – EIN HANES NI

BLACK HISTORY IS OUR SHARED HISTORY


Fe'ch gwahoddir i Ddigwyddiad Lansio Mis Hanes Pobl Dduon eleni

“Peidiwch ag anghofio fy nghofio i”

Dydd Iau 2 Hydref am 7.00pm yn

Archifdy Conwy, Yr Hen Ysgol Fwrdd, Lloyd Street, Llandudno, Conwy, LL30 2YG

Bwriad y digwyddiad yw dathlu bywyd eithriadol y Parch William Hughes, a lwyddodd i sefydlu a chynnal Congo House a'r Sefydliad Affricanaidd a leolwyd ym Mae Colwyn o 1885 i 1911 i hyfforddi Affricanwyr ifanc a thalentog fel cenhadon Cristnogol a'u hyfforddi gyda sgiliau crefft neu sgiliau meddygol i'w defnyddio wrth ddychwelyd i Affrica. Mae'r stori hon yn arbennig o arwyddocaol i gydnabod yr ymagwedd meddwl agored, parchus a



chynhwysol oedd gan William Hughes a'r gefnogaeth a roddwyd gan bobl Bae Colwyn i'r niferoedd o ymwelwyr o Affrica, cyn y crëwyd sgandal i amharchu a phardduo gwaith a gweledigaeth Hughes.

Bydd bwffe o 6.30pm, gyda chyflwyniad i ddilyn gan John Lawson Reay, Cyd-awdur "The Scandal of Congo House".

Wedi hynny bydd lansiad “BAMONIMAMBO (The Witnesses): Rediscovering D.R. CONGO and BRITISH ISLES Common History”

wedi'i ysgrifennu gan Norbert X Mbu-Mputu, newyddiadurwr alltud o Weriniaeth Ddemocrataidd Congo sy'n byw yn Ne Cymru'n awr.

Ffoniwch neu anfonwch e-bost at Susan Ellis yn Archifdy Conwy ar (01492) 577550 neu susan.ellis@conwy.gov.uk i archebu eich lle.



Mae nifer y lleoedd yn gyfyngedig oherwydd y gofod sydd ar gael, ond gobeithiwn gynnal mwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau ym Mae Colwyn yn ystod y mis a dechrau cynnwys pobl leol yn y gwaith ymchwil i ganfod mwy am y stori anhygoel er mwyn sicrhau y nodir gwaith gwerthfawr y Parch William Hughes a'r Affricanwyr a dderbyniodd ei gymorth gyda chefnogaeth cymunedau lleol Gogledd Cymru.

Cefndir Mis Hanes Pobl Dduon yng Ngogledd Cymru:

Cynhaliwyd rhaglen o ddigwyddiadau BHM am y tro cyntaf yng Ngogledd Cymru yn 2010, gyda chefnogaeth Cymdeithas Affro Caribiaidd Prifysgol Bangor a Learning Links International. Ers hynny, bob blwyddyn mae aelodau Rhwydwaith "Hanes Du - Ein Hanes Ni" yng Ngogledd Cymru wedi cynnal ymchwil pellach i 'hanes a rennir' ac wedi cysylltu gyda Grŵp Capoeira Gogledd Cymru "Capoeira Mocambo" sy'n arbenigwyr yn y gelfyddyd o Dde America mewn dathliad o'r ffurf o ddawns / hunanamddiffyn hanesyddol a ddatblygwyd gan Affricanwyr oedd yn gaethweision ym Mrasil, gydag amrywiaeth o Weithdai, Dosbarthiadau a Digwyddiadau Perfformiad.

Yn 2011, roedd Grŵp Llywio BHM Gogledd Cymru yn cynnwys Cymdeithas Integreiddiad Amlddiwylliannol Gogledd Cymru (NWAMI), Rhwydwaith "Hanes Du - Ein Hanes Ni" Gogledd Cymru, BAWSO Wrecsam (Black Association of Women Step Out), a Chymdeithas Jamaica Gogledd Cymru.

Bydd mwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau cyffrous yn 2014 gyda mwy o gefnogaeth gan grwpiau a sefydliadau megis Cymdeithas Hanes Pobl Dduon Cymru, Cyngor Hil Cymru ac Archifdy Conwy. Bydd Yasus Afari, Bardd a Pherfformiwr Reggae o Jamaica, yn ôl yng Nghymru eto i gefnogi dathliadau BHM yn ei ffordd unigryw ei hun, gyda gweithdai ysgolion a pherfformiadau – cysylltwch â Yasus Afari trwy Liz Millman ar lizmillman@yahoo.co.uk

Bydd y mis yn dechrau gyda chydabyddiaeth yn nigwyddiad Rhwydwaith Gyfnewid Gyfartal yn Wrecsam ddydd Mercher 1 Hydref, ac yna dydd Iau 2 Hydref byddwn yn canolbwyntio ar stori'r Congo Boys, gyda thaith wedi'i threfnu yn y prynhawn i archwilio lleoliadau allweddol ym Mae Colwyn sef y Sefydliad Affricanaidd, Congo House a'r cofebion yn y fynwent o rai o'r Affricanwyr a fu farw yma. Yna bydd cyflwyniadau yn y gyda'r nos yn Archifdy Conwy.

Ewch i www.bhmnw.com i weld mwy o fanylion a gwybodaeth am y gweithgareddau eleni.

Cysylltwch â Chydlynnydd BHM GC, Liz Millman, ar lizmillman@yahoo.co.uk neu 07711 569 489 i gael rhagor o wybodaeth neu i ymuno â / cefnogi Rhwydwaith Hanes Pobl Dduon Gogledd Cymru.